**Rhyfedd Ras**

Daeth ffrydiau melys iawn
Yn llawn fel lli’
O ffrwyth yr arfaeth fawr
Yn awr i ni:
Hen iachawdwriaeth glir
Aeth dros y crindir cras;
Bendithion amod hedd:
O ryfedd ras!

Fe gymerth Iesu pur
Ein natur ni;
Enillodd ef i’w saint
Bob braint a bri:
Gadawai’r nef o’i fodd,
Fe gym’rodd agwedd gwas;
Ffrwyth y cyfamod hedd:
O ryfedd ras!

Llonyddodd Iesu’r dig,
Do, dig ei Dad;
I’r gyfraith ar y groes,
Y rhoes fawrhad:
Cyhoedder drwy bob man,
O’r lydan ddaear las,
Fod Duw yn awr mewn hedd:
O ryfedd ras!

Fe gymerth Iesu blaid
Trueiniaid trist;
Ysigodd ben y ddraig;
Ein craig yw Crist:
Cawn ninnau fod yn bur,
Uwch cur a phechod cas,
Yn berffaith ar ei wedd:
O ryfedd ras!

Boed clod i’n Prynwr rhad,
Ein Ceidwad cu;
Fe dorrodd rym yr hen
Iorddonen ddu:
Gorchfygodd angau cryf,
Er awch ei gleddyf glas,
A drylliodd rwymau’r bedd:
O ryfedd ras!

Crist yw ein cadarn dŵr,
Gwaredwr yw;
Dan gysgod tawel hwn
Y byddwn byw:
Fe arwain ei holl saint,
Er cymaint llid eu cas,
I mewn i'r nefol wledd:
O ryfedd ras!

Wrth orffwys ar yr Iawn
Ni gawn i gyd
Felysion ffrwythau'r groes
Drwy'n hoes o hyd:
Mae yma hyfryd win
I flin, o beraidd flas;
Maddeuant pur a hedd:
O ryfedd ras!

Caed balm o archoll ddofn
Y bicell fain;
Yn rawnwin ar y groes
Fe droes y drain:
Dechreuwn fawl cyn hir
Na flinir ar ei flas,
Am Iesu'r aberth hedd:
O ryfedd ras!

***Pedr Fardd***